

Cynhanesyddol Cymru

Pecyn Gwybodaeth Athrawon

5
G
S
Y
D

Nodiadau i athrawon

Mae'r adnodd hwn yn rhoi manylion y cyfnodau cynhanesyddol mawr o'r Oes Baleolithig i'r Oes Haearn, ac yn cefnogi'r gwaith o addysgu'r Cwricwlwm Cymreig, yn ogystal â darparu gwybodaeth gefndir i gefnogi ymweliadau â safleoedd cynhanesyddol, gan gynnwys y safleoedd dan ofal Cadw:

▲ Neolithig


Siambr gladdu Barclodiad y Gawres, Ynys Môn
Siambr gladdu Bodowyr, Ynys Môn
Siambr gladdu Bryn Celli Ddu, Ynys Môn
Siambr gladdu Capel Garmon, Gwynedd
Siambr gladdu Carreg Coetan Arthur, Sir Benfro
Castell Bryn Gwyn, Ynys Môn
Siambr gladdu Din Dryfol, Ynys Môn
Siambr gladdu Dyffryn Ardudwy, Gwynedd
Siambr gladdu Lligwy, Ynys Môn
Siambr gladdu Parc Le Breos, Abertawe
Siambr gladdu Pentre Ifan, Sir Benfro
Siambr gladdu Prysaeiddfed, Ynys Môn
Siambr gladdu Tinkinswood, Bro Morgannwg
Siambr gladdu Trefignath, Ynys Môn
Siambr gladdu Tŷ Newydd, Ynys Môn

■ Oes yr Efydd

Meini hirion Penrhos Feilw, Ynys Môn
Maen hir Tregwehelydd, Ynys Môn
Maen hir Tŷ Mawr, Ynys Môn

● Oes yr Haearn

Caer Lêb, Ynys Môn
Caer y Tŵr, Ynys Môn
Castell Bryn Gwyn, Ynys Môn
Gwersyll Bwlwarcu Cas-gwent, Sir Fynwy
Grŵp Cytiau Mynydd Twr, Ynys Môn



Athrawon Cynhanesyddol Cymru

Pecyn Gwybodaeth

Llinell amser syml o Gynhanes Cymru

Paleolithig (Hen Oes y Cerrig) – c.800,000 – c.12,000 CC

228,000 BP	Esgym dynol a ddarganfuwyd yn Ogof Bontnewydd, Sir Ddinbych sydd wedi'u dyddio i tua 230,000 o flynyddoedd oed, yw'r dystiolaeth gynharaf o bobl Neanderthalaidd yn byw yng Nghymru.
62,000 BP	Mae bwyell llaw a ddarganfuwyd yn Ogof Coygan, Sir Gaerfyrddin sydd wedi'u dyddio i rhwng 64,000 a 38,000 mlwydd oed, yn dystiolaeth o bobl Neanderthalaidd yn byw yng Nghymru.
24,000 BP	Esgym ac arteffactau addurniadol a ddarganfuwyd yn Ogof Paviland, Gwyr, yn 1823, sydd wedi'u dyddio i tua 26,000 o flynyddoedd oed, yw gweddillion claddu cynharaf Homo Sapien (dynol) yng ngorllewin Ewrop. Roedd Ogof Paviland tua 100 km o'r môr yn y cyfnod Paleolithig.
14,500 BP	Celf creigiau a ddarganfuwyd yn Ogof Cathole ger siambr gladdu Parc le Breos, Abertawe, yn 2010, sy'n dyddio i tua 16,500 o flynyddoedd oed, yw'r gelf creigiau hynaf ym Mhrydain, ac o bosibl yng ngorllewin Ewrop.

Mesolithig (Canol Oes y Cerrig) – c.12,000–4,000 CC

c.11,000 CC	Cafodd Ogof Kendrick, Llandudno, ei chloddio yn yr 1970au. Daeth archeolegwyr o hyd i asgwrn gêm ceffyl wedi'i ysgythu â phatrymau igam-ogam, sydd wedi'u dyddio i tua 13,000 o flynyddoedd oed, ynghyd ag esgym dynol, a dannedd gwartheg a cheirw wedi'u haddurno.
c.10,900-5,900 CC	Daethpwyd o hyd i safle Mesolithig mawr yn Rhuddlan, Sir Ddinbych, yn ystod gwaith cloddio yn y dref ganoloesol ym 1978. Cafwyd hyd i dros 13,000 o offer cerrig, ynghyd â phum carreg fân wedi'u haddurno, sy'n enghraifft brin o gelf addurniadol Fesolithig a ganfuwyd yng Nghymru.
c.8,500 CC	Roedd Nab Head, Sir Benfro, yn cael ei ddefnyddio fel 'safle tasgau', lle roedd pobl Fesolithig yn gwneud offer neu fwyd wedi'i brosesu. Mae miloedd o offer cerrig wedi cael eu darganfod ar y safle, ynghyd â thua 700 o leiniau siâl.

Yr Oes Neolithig (New Stone Age) – c.4,400–2,300 CC

c. 4,000 CC	Siambr gladdu Tinkinswood, Bro Morgannwg. Cafodd 920 o ddarnau o esgym, yn cynrychioli dros 40 o unigolion, eu canfod yma, ynghyd â theilchion crochenwaith. Credir mai'r maen capan, oedd yn pwyso tua 40 tunnell, yw'r mwyaf ym Mhrydain.
c. 4,000-3,500 CC	Siambr gladdu Pentre Ifan a adeiladwyd yn nyffryn Nanhyfer, Sir Benfro. Cafodd y siambr hon ei chloddio sawl gwaith yn ystod yr 20fed ganrif, a daeth archeolegwyr o hyd i naddion fflint a darnau o grochenwaith oedd yn debyg i'r rhai a ganfuwyd yn siambr gladdu Pant y Saer, Ynys Môn, gan awgrymu cysylltiad rhwng y ddwy gymuned.
c. 3,500 CC	Siambr gladdu Capel Garmon a adeiladwyd ger Llanrwst, Conwy, yn arddull Cotswold Hafren. Fe'i cloddwyd ym 1925, ac fe wnaeth archeolegwyr ganfod naddion fflint a darnau o grochenwaith yno.
c. 3,000 CC	Heneb cylch pridd Bryn Celli Ddu a adeiladwyd yn Ynys Môn
c. 3,000–2,200 CC	Cafodd cerrig gleision eu symud o Sir Benfro i Wiltshire i ffurfio cyfnodau cynharaf Côr y Cewri
c. 2,600 CC	Clostir hysbys mwyaf Ewrop a adeiladwyd ym Masn Walton, Sir Faesyfed
c. 2,500-2,400 CC	Adeiladwyd siambr gladdu Barclodiad y Gawres, yn arddull siambrau claddu yn Iwerddon. Fe'i cloddwyd ym 1952, a daeth archeolegwyr o hyd i olion tân a barodd yn hir a oedd wedi ei diffodd gyda 'stiw' yn cynnwys ymlusgiaid, amffibiaid a mamaliaid bach, cyn cael ei orchuddio â chregyn a cherrig mân.

Yr Oes Efydd – c.2,300–700 CC

c. 2,000 CC	Cafodd yr heneb cylch pridd ym Mryn Celli Ddu ei dinistrio a chafodd bedd cyntedd ei adeiladu ar y safle.
c. 2,000 CC	Adeiladwyd siambr gladdu Pentre Ifan, a ddylanwadwyd gan batrwm siambr gladdu yn Iwerddon. Fe'i cloddiwyd ym 1936, a darganfu archeolegwyr ddarnau o grochenwaith yma.
c. 2,000 CC	Dechreuodd mwyngloddio copr ym Mynydd Parys, Ynys Môn, a Phen y Gogarth, Llandudno, tua 3,500 - 4,000 o flynyddoedd yn ôl. Mae archeolegwyr wedi awgrymu y gallai'r mwynwyr cyntaf fod wedi dod o Sbaen neu'r Balcanau.
c. 1,800 CC	Siambr gladdu Parc le Breos, Gwyr, a adeiladwyd yn arddull 'Cotswold Hafren'. Fe'i cloddiwyd yn yr 1960au, ac mae archeolegwyr wedi dod o hyd i esgyrn o leiaf 40 o bobl, a nifer o gŵn, cathod, ceirw, defaid a gwartheg. Mae archeolegwyr yn credu bod cyrff y meirw wedi eu gadael mewn ogof Cathole gerllaw hyd nes nad oedd dim ond esgyrn ar ôl, ac yna cafodd yr esgyrn eu symud i'r siambr gladdu.
c. 1,800 CC	Mae crochenwaith wrn colerog, cyllyll, crafwr; naddion fflint, sbatwla esgyrn, nodwydd, glain, esgyrn cŵn a chathod ac olion dynol a ddarganfuwyd yn Ogof y Dannedd, Abertawe (tua 1500 metr o siambr gladdu Parc le Breos) ym 1962 yn dystiolaeth fod pobl wedi byw yno yn yr oes efydd.
c. 1,000 CC	Mae'r 'bryngaerau' cyntaf yn cael eu hadeiladu, gan grwpiau o bobl yn amgáu ardaloedd mawr ar ben y brynau, gan ffensys pren mawr o'r enw 'palisades' yn gyntaf.

Yr Oes Haearn c.800 CC–OC 48

800 BC- OC 50	Cafodd llawer o fryngaerau eu datblygu drwy gydol yr Oes Haearn gan "Y Celtiaid". Cloddiodd cymunedau ffosydd mawr a chloddiau enfawr o bridd, cerrig a phren, gan amgáu pen y brynau.
750-600 CC	Taflodd pobl eitemau o ansawdd da wedi'u gwneud o efydd a haearn i Lyn Fawr, Rhigos, Rhondda Cynon Taf. Mae eitemau a gafodd eu tynnu o'r llyn yn cynnwys cynion, crymanau a bwyell socedog, cleddyf, blaen gwaywffon, rasel a harnais ceffyl a chrochan efydd mawr iawn. Mae archeolegwyr yn credu y gallai'r eitemau fod wedi bod yn offrymau i'r Duwiau.
300 CC- OC 100	Taflodd pobl eitemau o efydd a haearn i mewn i Lyn Cerrig Bach, Ynys Môn. Mae dros 150 o eitemau wedi cael eu hadfer, gan gynnwys cleddyfau, blaen gwaywffyn, crochanau, cadwyni caethweision, gefeilau gofaint a phlac efydd wedi'i addurno'n hardd. Mae archeolegwyr yn credu y gallai'r eitemau fod wedi bod yn offrymau i'r Duwiau.
43/48 OC	Goresgyniad Prydain gan y Rhufeiniaid. Cyrhaeddodd y Rhufeiniaid ororau Cymru tua phum mlynedd yn ddiweddarach, yn 48 OC.

Y Cyfnod Palaeolithig – (500,000 – 10,000 CC)

Teithwyr

Fe wnaeth pobl Balaeolithig, a oedd yn cynnwys Neanderthaliaid (*Homo Neanderthalensis*) yn ogystal â bodau dynol modern (*Homo Sapiens*), gasglu planhigion gwyllt i'w bwyta, creu a rheoli tân, dechrau gwneud arfau o fflint, a datblygu sgiliau newydd ar gyfer hela a physgota. Y dystiolaeth gynharaf o bobl Baleolithig ym Mhrydain yw offer fflint ac olion traed yn dyddio'n ôl o leiaf 500,000 o flynyddoedd.

Helwyr-gasglwyr

Nid oedd y trigolion cynharaf hyn o Gymru yn byw mewn ffermydd na phentrefi. Roeddent yn bobl nomadig, oedd yn casglu planhigion gwyllt ac yn hela anifeiliaid, adar a physgod fel bwyd, ac yn defnyddio crwyn anifeiliaid i wneud dillad. Mae offer cerrig, esgyrn anifeiliaid, gweddillion dynol a gwrthrychau addurnol wedi cael eu darganfod mewn ogofâu yng Nghymru, a gafodd eu defnyddio gan bobl yn ystod y cyfnod Paleolithig.

Bodau dynol a Neanderthaliaid

Roedd Neanderthaliaid a bodau dynol modern yn byw ochr yn ochr â'i gilydd am filoedd o flynyddoedd, ond roedd y Neanderthaliaid wedi diflannu erbyn tua 40,000 BP. Does neb yn gwybod pam y bu farw'r Neanderthaliaid ac nid bodau dynol modern, ond mae'n bosibl fod y diet Neanderthalaidd yn llai amrywiol na diet bodau dynol modern, a gallai newid yn yr hinsawdd fod wedi lleihau cyflenwad prif ffynhonnell bwyd y Neanderthaliaid. Mae gan fodau dynol modern sgiliau gwybyddol uwch nag a oedd gan y Neanderthaliaid, fel y gellid gweld drwy'r ffaith eu bod wedi caffael iaith, technolegau a chelf ogofâu symbolaidd.

Celf

Mae celf ogofâu Palaeolithig yn unigryw iawn ac yn cynnwys paentiadau o anifeiliaid gwyllt, a allai fod wedi eu peintio i gynorthwyo hela; yn ogystal â phrintiau llaw, bwystfilod chwedlonol a phatrymau haniaethol. Cafodd y lluniau hyn eu creu gan ddefnyddio siarcol ac ocr coch. Mae rhai o'r paentiadau hynaf yng ngorllewin Ewrop wedi cael eu darganfod mewn ogofâu yng Nghymru.

Nid addurniadau o ardaloedd byw yn unig oedd y peintiadau hyn, oherwydd nad yw'r ogofâu lle cafodd y paentiadau eu darganfod yn dangos unrhyw dystiolaeth fod pobl wedi byw ynddynt am unrhyw gyfnod o amser; ac mae'r paentiadau yn aml wedi eu lleoli mewn rhannau o ogofâu nad ydynt yn hawdd eu cyrraedd.

Efallai y gallai paentiadau ogof fod wedi bod yn ffordd o gyfathrebu ag eraill, neu efallai y gallent fod wedi bod â phwrpas crefyddol neu seremonïol.

Anifeiliaid anwes?

Yn ôl pob tebyg fe wnaeth dyn ddoifi cŵn o leiaf 15,000 o flynyddoedd yn ôl, gan fod gwyddonwyr yn credu y gallai cŵn a bleiddiaid fod wedi datblygu i fod yn rhywogaethau ar wahân cyn belled â 32,000 o flynyddoedd yn ôl; mae'r ffosilau cŵn hynaf a ganfuwyd hyd yma yn dod o orllewin Ewrop ac wedi cael eu dyddio i rhwng 15,000 a 18,800 o flynyddoedd oed. Roedd cŵn yn cael eu defnyddio ar gyfer hela yn ogystal ag fel cwmniâeth.

Oeddech chi'n gwybod - bod 'Dynes Goch' Paviland yn ddyn!

Mae'r 'Dynes Goch' wedi cael ei charbon ddyddio i tua 27,000-31,000 BP, sy'n gwneud hyn yn un o'r claddedigaethau cynharaf y gwyddys amdano yn Ewrop. Cafodd corff dyn yn ei ugeiniau canol ei gladdu mewn pwll bas mewn ogof yn Paviland, ar arfordir Gwyr. Roedd ganddo 'glustog' garreg o dan ei ben, ac un arall o dan ei draed. Roedd wedi'i wisgo mewn dillad lledr - crys, trowsus a moccasins - ac roedd rhodenni ifori wedi torri a breichledau wedi'u gosod ar ei frest. Gosodwyd cregyn gwichiaid gyda thyllau ynddynt ar ei glun, a thaenellwyd ocr coch drosto i gyd cyn i'w gorff gael ei orchuddio â phridd.

Y Cyfnod Mesolithig – HELA A CHASGLU (12,500 – 4,400 BCC)

Hunting and gathering

Roedd pobl Fesolithig yn gallu byw mewn amrywiaeth o dirweddau gwahanol oherwydd eu bod yn gwneud offer allan o adnoddau naturiol ac roedd eu deiet yn amrywiol. Nid yw archeolegwyr yn gwybod a oedd ganddynt lochesi dros dro neu a oeddent yn byw mewn ogofâu; nid oes unrhyw dystiolaeth wedi ei ganfod o dai Mesolithig yng Nghymru. Hefyd, dechreuodd pobl Fesolithig ddatblygu a gwneud Microlithau - offer fflint bach iawn, fel llafnau, mynawydau, driliau a llafnau bach, y gellid eu defnyddio fel arfau unigol neu eu defnyddio gyda'i gilydd i wneud offer ac arfau, fel gwaywffyn, tryferi a saethau.

Cerrig

Mewn oes cyn darganfod metelau, roedd carreg yn sylfaenol i fywyd bob dydd. Roedd pobl Fesolithig yn siapio carreg i wneud bwyell, blaenau saethau a gwaywffyn, llafnau ar gyfer torri a chrafu, a mynawydau a driliau. Fe wnaethant ddatblygu technolegau hela newydd, fel bwâu, saethau, gwaywffyn a thryferi, a defnyddio pren a rhwydi i wneud trapiau pysgod a llyswennod.

Pren

Roedd pobl Fesolithig yn gwneud cychod, adeiladau, offer a gwrthrychau addurniadol o bren, yn ogystal ag offer a gwrthrychau addurniadol o esgryn a chymr.

Anheddiad?

Cafodd safleoedd anheddu Mesolithig eu darganfod yn Northumberland, a Star Carr yng Ngogledd Swydd Efrog. Cafodd Star Carr ei gloddio yn 2010, ac fe wnaeth archeolegwyr ganfod dystiolaeth y gallai'r tŷ fod wedi cael ei feddiannu a'i ailadeiladu dros 500 o flynyddoedd. Fe wnaethant hefyd ddod o hyd i nifer o wrthrychau, gan gynnwys padl cwch, gleiniau, blaen saethau a phenwisgoedd cyn carw. Mae penwisgoedd cyn carw yn awgrymu bod y bobl Fesolithig yn cymryd rhan mewn seremonïau neu ddefodau o ryw fath, gan nad hetiau ymarferol yn unig ar gyfer amddiffyn rhag y tywydd oedden nhw.

Ni chanfuwyd unrhyw olion o dy Mesolithig yng Nghymru hyd yn hyn, ond mae archeolegwyr wedi dod o hyd i nifer o 'safleoedd tasgau' lle roedd offer a gleiniau yn cael eu gwneud, efallai ar gyfer masnach. Mae'r prif 'safleoedd tasgau' a ganfuwyd hyd yn hyn yn Rhuddlan, Nab Head, Sir Benfro; a Burry Holmes, ger Gŵyr. Yn y cyfnod Mesolithig, pan oedd lefel y môr efallai yn 142 o fetrau yn is nag y mae heddiw, roedd Nab Head a Burry Holmes yn fryniau mewndirol.

Y Cyfnod Neolithig – Y FFERMWYR CYNTAF (4,400 – 2,300 CC)

Ffermio

Symudodd pobl Neolithig o fod yn helwyr-gasglwyr crwydrol i ddod i fod y ffermwyr cyntaf. Roeddent yn defnyddio bwyell cerrig i glirio tir coediog, yn gyntaf ar gyfer llociau anifeiliaid ac yn ddiweddarach i blannu cnydau. Fe wnaethant ddechrau dofi geifr, moch a gwartheg. Cafodd defaid eu dwyn i Brydain o ardal ddwyreiniol Môr y Canoldir tua 4,000 o flynyddoedd yn ôl.

Roedd ffermio yn sicrhau cyflenwad bwyd dibynadwy, felly dechreuodd pobl ymgartrefu mewn un lle am gyfnodau hwy nag o'r blaen, er y gallai pobl fod wedi byw mewn gwahanol fannau ar wahanol adegau o'r flwyddyn, er mwyn darparu porfa i'w hanifeiliaid yn yr haf ac yn y gaeaf.

Sgiliau a Masnach

Roedd byw mewn un lle am gyfnodau hwy, yn golygu treulio llai o amser yn teithio, a rhoddodd hyn fwy o amser i'r bobl Neolithig ddatblygu syniadau, sgiliau, ac arteffactau fel bwyell carreg caboledig. Cafodd nifer o "ffatrioedd" ar gyfer cynhyrchu'r pennau bwyell hyn eu darganfod yng Nghymru, ac mae'r mwyaf ohonynt yn Graig Llwyd, Penmaenmawr, Conwy. Cafodd pennau bwyell o Graig Llwyd eu darganfod mor bell i ffwrdd â Swydd Efrog a Chanolbarth Lloegr, sy'n dystiolaeth o ddatblygiad masnach.

Dechreuodd pobl Neolithig ddefnyddio clai i wneud crochenwaith hefyd. Roedd crochenwaith yn bwysig am ei fod yn golygu y gallai pobl gario a storio bwyd a dŵr, a gellid ei ddefnyddio hefyd ar gyfer coginio. Wrth i'w sgiliau ddatblygu, dechreuodd pobl wneud gwahanol fathau o grochenwaith, a'i addurno gyda phatrymau.

Tai

Mewn rhai ardaloedd arweiniodd y newid o fod yn helwyr-gasglwyr crwydrol i aros mewn un lle am gyfnodau hwy at adeiladu tai sylweddol yn lle'r llochesi syml a wnaed o ffyn a chrwyn anifeiliaid. Canfuwyd olion dau dy Neolithig ar safle bryngaer o'r Oes Haearn yng Nghlegyr Boia ger Tyddewi, Sir Benfro, ynghyd â darnau o grochenwaith crwn eu gwaelod Neolithig, a phennau bwyell wedi'u gwneud o gerrig caboledig.

Claddu

Roedd adeiladu siambrau claddu, rhywbeth nad oedd wedi ei wneud gan helwyr-gasglwyr crwydrol, yn rhan bwysig o drawsnewid bywyd bob dydd yn y cyfnod Neolithig. Cafodd y siambrau claddu, sy'n dal yn nodweddion amlwg yn y dirwedd yng Nghymru, yn ôl pob tebyg eu hadeiladu ar gyfer claddu cyfunol yn y gymuned yn hytrach nag fel beddau unigol. Maent fel arfer yn cynnwys cyfres o gerrig unionsyth sy'n cynnal maen capan mawr, a oedd yn gorchuddio'r siambr. Mae rhai o'r meini capan yn enfawr - yn pwyso 30-40 o dunelli, ac mae'n fwy na thebyg ei bod yn cymryd tua 200 o bobl i'w symud nhw i'w lle.

Roedd y claddedigaethau, naill ai drwy amlosgiad neu gladdiad, yn cael eu gosod yn y siambrau gyda nwyddau priodol yn y bedd ar gyfer yr ymadawedig, fel llestri crochenwaith neu offer cerrig. Mae archeolegwyr wedi darganfod darnau o grochenwaith yn y mynedfeydd i lawer o siambrau claddu Neolithig, ac maent yn credu efallai y bu defodau yn ymwneud â thorri crochenwaith yn gysylltiedig â chladdedigaethau yn y siambrau.

Yn wreiddiol roedd y siambrau yn cael eu gorchuddio yn rhannol neu'n llwyr gyda chylch mawr neu dwmpath siâp lletem o gerrig neu bridd. Mae'r rhan fwyaf o'r twmpathau hyn wedi diflannu gyda threigl amser, a dim ond y siambrau cerrig y tu mewn sy'n aros.

Mae archeolegwyr wedi dod o hyd i hadau, siarcol, a deunyddiau planhigion ac anifeiliaid eraill, ar hen wyneb y ddaear o dan y garnedd (twmpath o gerrig). Mae'r gweddillion hyn wedi ymestyn gwybodaeth fodern am arferion ffermio Neolithig a'r amgylchedd ac wedi darparu tystiolaeth am ddyddio gwyddonol.

Tua diwedd y cyfnod Neolithig, roedd pobl wedi dechrau gweithio metel, gan ddatblygu eu sgiliau i ddechrau ar fetelau meddal fel plwm, copr ac aur cyn dysgu sut i wneud aloion a gweithio gyda metelau caletach.

Yr Oes Efydd – EFYDD, FFERMYDD A MEINI HIRION (2,300 – 700 CC)

Aur

Mae sgil gofaint metel cynnar wrth weithio gydag aur yn amlwg o 'Fantell yr Wyddgrug', sef clogyn addurniadol cain, y credir iddi gael ei llunio ar gyfer merch ifanc. Roedd y fantell wedi ei gwneud o un darn o aur ac mae wedi cael ei disgrifio fel un o'r enghreifftiau gorau o waith llenfetel o Oes yr Efydd, a chafodd ei chynnwys yn rhaglen y BBC 'History of the World in 100 Objects'. Nid ar gyfer dibenion claddu yn unig y cafodd ei llunio, gan ei bod wedi cael ei gwisgo a'i thrwsio, ond gan y byddai angen i'r sawl oedd yn ei gwisgo gael help i'w gwisgo a'i thynnu, ac y byddai symudiadau'r fraich wedi'u cyfyngu'n fawr iawn, nid oedd y fantell wedi'i bwriadu ar gyfer ei gwisgo bob dydd. Mae wedi cael ei dyddio i rhwng 1,900 a 1,600 CC. Fe'i darganfuwyd mewn siambr gladdu o'r Oes Efydd ym Mrlyn yr Ellyllon, Yr Wyddgrug, ynghyd â sgerbwdd, gleiniau ambr a llestr crochenwaith yn cynnwys esgym dynol wedi'u hamlosgi, gan weithwyr yn cloddio am gerrig ym 1833.

Copr

Mae archeolegwyr yn credu bod offer copr wedi ymddangos am y tro cyntaf yng Nghymru tua diwedd y cyfnod Neolithig. Mae copr yn fetel meddal iawn, ac yn hawdd ei weithio, ond nid yn ddigon caled i wneud offer sy'n para ohono. Fe wnaeth gofaint metel cynnar arbrofi gyda aloion copr a metelau caletach, a gwneud efydd drwy gyfuno copr gyda thun. Mae'n bosibl fod dylanwad a syniadau'r gweithwyr metel a greodd yr offer wedi cyrraedd Cymru dros y môr o Sbaen neu'r Balcanau.

Mae'n debyg fod llawer o'r copr ar gyfer cynhyrchu efydd yng Nghymru wedi dod o'r mwynglawdd copr ar Ben y Gogarth Llandudno, lle mae mwyngloddio cynhanesyddol ar raddfa fawr iawn yn dyddio'n bennaf o'r Oes Efydd ganol. Roedd cloddio am gopr yn digwydd hefyd ym Mynydd Parys, Ynys Môn. Mae'n debyg fod y tun wedi cael ei gludo o Gernyw, ond mae yna hefyd fwyngloddiau tun hynafol yn Llydaw a gogledd Sbaen.

Efydd

Roedd offer a wnaed mewn efydd, yn arbennig pennau bwyell, yn arloesol o ran meteleg a dylunio. Roeddent yn cael eu masnachu yn eang, gydag enghreifftiau yn cael eu darganfod mor bell i ffwrdd â Llydaw a gogledd yr Almaen.

Bywyd bob dydd

Roedd y rhan fwyaf o bobl yr Oes Efydd yn ffermwyr, ond roeddent yn parhau fel grwpiau cymdeithasol ar raddfa fach a oedd yn dal yn eithaf symudol, gyda llawer ohonynt yn symud anifeiliaid o gwmpas tirweddau teuluol o dymor i dymor. Roedd aneddiadau yn fach ac yn agored, yn cynnwys ychydig o adeiladau, yn hytrach na phentrefi neu drefi. Er mai prin yw'r dystiolaeth archeolegol yng Nghymru o ddwysedd poblogaeth uchel neu o gaeau sefydlog a chaeau wedi'u gosod allan, yn wahanol i rannau eraill o dde Prydain, mae archeoleg gan ddefnyddio lluniau o'r awyr ym Mhowys wedi nodi llawer o safleoedd oedd yn anhysbys yn flaenorol. Mae hyn yn ein hatgoffa er nad ydym wedi dod o hyd iddo eto, nad yw hynny'n golygu nad oedd yn bodoli! Tua diwedd yr Oes Efydd, dechreuodd pobl amgáu eu haneddiadau gan ddefnyddio 'palisades' (ffensys mawr), a chafodd llawer o'r rhain eu 'huwchraddio' yn nes ymlaen i fod yn fryngaerau yn ystod yr Oes Haearn.

Cafodd olion cytiau cerrig crwn a llociau o'r Oes Efydd eu darganfod yn Ffrith Bryn Helen, ger Cerrigydrudion, a chafodd tŷ crwn wedi'i wneud o bren o ddiwedd yr Oes Efydd ei ganfod hefyd ger Llandinam, Powys. Yn hwyr yn yr Oes Efydd, cafodd ffermydd yr ucheldir eu gadael. Mae archeolegwyr yn credu bod hyn wedi digwydd naill ai oherwydd newid hinsawdd i dywydd oerach a gwlypach, neu oherwydd bod clirio coetiroedd yr ucheldir i'w ffermio wedi arwain at deneuo'r priddoedd, a bod y tir wedi mynd yn llawn dŵr ac yn annigonol ar gyfer ei ffermio.

Yr Oes Efydd – EFYDD, FFERMYDD A MEINI HIRION (2,300 – 700 CC)

Claddu

Datblygodd arferion claddu o'r Oes Efydd o gladdedigaethau cymunedol y cyfnod Neolithig i amlosgiadau. Dechreuodd ychydig o bobl ddethol, pobl bwysig yn y gymuned mae'n debyg, gael eu claddu gyda nwyddau bedd, sy'n dangos eu bod yn rhyfelwyr neu yn rhai uchel eu statws, gan roi awgrymiadau ynghylch hunaniaeth a hierarchaethau cymdeithasol. Roedd tomenni claddu yn cael eu gwneud yn nodweddiadol o bridd a thywyrch ar dir isel, ac o gerrig yn ardaloedd yr ucheldir.

Mae'r gwaith o gloddio tomenni claddu wedi ymestyn gwybodaeth fodern am arferion claddu'r Oes Efydd, ac wedi rhoi gwell dealltwriaeth o sut y cafodd tomenni eu hadeiladu, a sicrhau ein bod yn dysgu am agweddau ar seremonïau claddu.

Mae rhai o'r safleoedd mwyaf amlwg yn y dirwedd o'r Oes Efydd yng Nghymru yn gerrig sengl neu yn barau o feini hirion, fel meini hirion Penrhos Feilw, Tregwehelydd, a Thŷ Mawr; Ynys Môn, yn ogystal â chylchoedd a rhesi o gerrig. Mae cloddfeydd archeolegol wedi datgelu bod yr ardal o amgylch

y cerrig hyn yn aml yn cynnwys claddedigaethau, llwyfannau cerrig enigmatig neu olion tanau. Swyddogaeth y rhan fwyaf o'r safleoedd hyn yn ôl pob tebyg oedd bod yn henebion defodol neu grefyddol.

Mae tystiolaeth o ganol yr Oes Efydd ac yn ddiweddarach yn yr oes honno yn wahanol iawn i'r Oes Efydd gynharach. Mae claddedigaethau yn absennol, ond mae mwy a mwy o aneddiadau (tai crwn) yn cael eu hadeiladu.

Creodd pobl gelciau o wrthrychau metel, ond nid yw archaeolegwyr yn siŵr pam. Er enghraifft, yn 2013, canfuwyd celc fetel o ddau ddarn o lafnau cleddyf efydd, ffitiad i wain efydd, cyllell efydd a chwe darn ingot copr yn dyddio i 1000-800 CC ger Marloes yn Sir Benfro. Mae archeolegwyr wedi disgrifio'r eitemau fel 'egsotig' ac yn annodweddiadol o'r rhanbarth. Mae tystiolaeth fel hyn yn dangos i ni fod rhai o bobl yr Oes Efydd o leiaf yn crwydro, yn rhwydweithio ac yn caffael technolegau a nwyddau egsoftig newydd a hudolus.



Yr Oes Haearn – CAERAU A HAEARN (700 BC - 43 OC)

Cymunedol

Roedd yr Oes Haearn yn gyfnod pan ddaeth cymdeithas yn fwy cymhleth, a lle roedd pobl yn gweithio gyda'i gilydd i greu tiroedd amgaeedig cymunedol mawr. Tua diwedd y cyfnod, adroddodd y Rhufeiniaid fod strwythurau llwythol rhanbarthol mwy o faint yn bodoli, oedd yn cwmpasu ardaloedd o efallai 60-80 o filltiroedd ar draws.

Bryngaerau

Mae bryngaerau mawr, oedd yn cael eu hamddiffyn yn wych a thiroedd wedi'u hamgau fel y rhai yn Llanmelin, Pen Dinas a Thre'r Ceiri, a oedd â chymunedau o ychydig gannoedd o bobl o'u cwmpas, yn nodweddion cyfarwydd yn nhirwedd Cymru. Roedd nifer fawr o adeiladau wedi'u hadeiladu y tu mewn iddynt, a oedd wedi eu cynllunio weithiau mewn cynllun grid. Efallai y byddai eu cloddiau a'u ffosydd amddiffynnol wedi gwarchod y bobl oedd yn byw yno rhag ymosodiad ac anifeiliaid gwyllt, a'u bod yn dangos statws a grym y rhai a'u hadeiladodd. Mae bryngaerau yn amrywio o ran maint, o 1 i dros 20 hectar sef maint tua 20 o gaeau pêl-droed! Cafodd llawer ohonynt eu datblygu dros gannoedd o flynyddoedd, gyda safleoedd yn cael eu hystemyn. Roedd gan lawer ohonynt fynedfeydd mawreddog, a chafodd rhai eu dinistrio yn fwriadol ac yn ofalus hyd yn oed cyn cael eu gadael. Roedd y bryngaerau yn safleoedd pwysig a allai fod wedi bod yn gysylltiedig â'r ffermydd llai cyfagos a'r gymuned ehangach o'u cwmpas. Parhaodd rhai o'r safleoedd hyn oedd yn cael eu hamddiffyn i gael eu defnyddio yn y cyfnod Rhufeinig ac yn ddiweddarach.

Ffermydd

Roedd ffermdir amgaeedig amddiffynnol llai o faint yn cynnwys ffermdai pren a cherrig crynion gyda tho gwellt gyda buarthau a'r holl adeiladau oedd eu hangen ar gyfer storio a melino grawn, gofalu am anifeiliaid fferm, ac efallai ar gyfer gwneud crochenwaith ac offer haearn. Mae olion y caeau sydd ynghlwm wrth y ffermydd hyn weithiau yn weladwy fel cyfres o wrthgloddiau a chloddiau wedi'u codi o amgylch y prif anheddiad.

Adeiladau

Roedd llawer o adeiladau o Oes yr Haearn yng Nghymru wedi eu hadeiladu o bren, sydd wedi pydru, a dim ond trwy gloddio y gellir dod o hyd i feintiau a siapiau'r adeiladau hyn. Mae sylfeini'r waliau cerrig yn dal i'w gweld mewn rhai mannau, fel yn Din Lligwy, Ynys Môn, lle roedd anheddiad ffermio yn bodoli cyn i'r Rhufeiniaid feddiannu'r safle, ac ar

Fynydd Twr lle mae olion anheddiad ffermio o tua 20 o dai crynion, rhai gyda basnau a silffoedd eistedd. Fe wnaeth archeolegwyr oedd yn cloddio ar y safle ddod o hyd i dystiolaeth o waith metel, a hadau gwenith, ceirch a haidd, ac mae cregyn llygaid maharen a gwichiad yn dystiolaeth fod bwyd yn cael ei gymryd o'r môr hefyd.

Celf

Daeth pobl yn fwy a mwy medrus gyda gweithio metel a chelf hefyd. Mae pentan haearn hardd gyda phen ceffyl neu darw arno, a ganfuwyd ar ffermdir ger Capel Garmon, wedi cael ei ddyddio i tua 50 CC. Mae'n pwyso 9kg, mae bron yn 800 mm o uchder, a chafodd ei wneud gan of medrus iawn a oedd wedi meistrolu gweithio mewn haearn yn llwyr. Mae powlen efydd a ganfuwyd ar yr Wyddfa, wedi ei dyddio i tua 50 OC, yn dangos bod y gwneuthurwr yn brofiadol wrth ddefnyddio technegau enamlo soffistigedig yn ogystal â chreu gwrthrychau efydd.

Mae gwrthrychau a ddarganfuwyd ac na chafodd eu gwneud yn lleol, fel casgliad o leiniau gwydr o Wlad yr Haf a ganfuwyd yn Nhwyn-y-Gaer, Y Fenni; a glain Ewropeaidd a ganfuwyd yng Nglanbidno, Powys; yn dystiolaeth fod masnach dros bellter hir yn cysylltu Cymru gyda rhannau eraill o Brydain, a hefyd ag Ewrop.

Crefydd

Nid oedd gan "Y Celtiaid" iaith ysgrifenedig ac mae'n debyg eu bod yn trosglwyddo straeon i bob cenhedlaeth ar lafar. Mae'r unig dystiolaeth ysgrifenedig sydd gennym am y cyfnod hwn ym Mhrydain yn dod oddi wrth y Rhufeiniaid ac mae'n bosibl bod rhai o'r pethau a gafodd eu hadrodd, yn enwedig am grefydd ac addoli yn Oes yr Haearn, yn rhagfarnllyd a gallent fod yn 'bropaganda'.

Mae dod o hyd i gannoedd o wrthrychau o Lyn Cerrig Bach, Ynys Môn a Llyn Fawr yn y Rhondda yn dystiolaeth bod eitemau metel gwerthfawr fel crochanau efydd, arfau ac offer wedi'u gwneud o efydd a haearn yn cael eu rhoi yn fwriadol mewn llynnoedd a chorsydd gan bobl yr Oes Haearn. Y cleddyf haearn, y blaen gwaywffon a'r cryman a ganfuwyd yn Llyn Fawr yw'r gwrthrychau haearn hynaf a ganfuwyd yng Nghymru, sy'n dyddio o tua 650 CC. Mae dystiolaeth debyg o ollwng gwrthrychau metel o ansawdd uchel yn fwriadol mewn mannau dyfrllyd wedi cael ei chanfod ar draws gorllewin Ewrop, ac mae archeolegwyr yn credu y gallai'r rhain fod wedi bod yn offrymau i'r Duwiau.